

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Canolfan Feddygol Bodnant
Dyddiad y gweithgarwch: 17 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 5 December 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Bodnant, Rhodfa Menai, Bangor, LL57 2HH fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Meddygfa Bodnant, Bangor, yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio i ba raddau y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio'r trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol mewn perthynas â gweithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad ag un o'r meddygon teulu sy'n bartner a rheolwr y practis ar 17 Hydref 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo wedi addasu yn sgil COVID-19?
- Pa mor effeithiol y mae'r practis yn gallu cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill fel timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran amgylchedd y practis a'r gallu i drefnu apwyntiadau?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- asesiadau risg amgylcheddol
- newidiadau i'r gweithle yn sgil COVID-19.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod asesiad risg wedi'i gynnal yn y practis a oedd yn cynnwys asesiadau o ran iechyd a diogelwch, yr amgylchedd a COVID-19.

Cawsom wybod bod amgylchedd y practis yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Dywedwyd wrthym fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu ar ddechrau pandemig COVID-19 er mwyn helpu i wella ei weithdrefnau rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod rhai ardaloedd o'r practis wedi cael eu hadnewyddu hefyd. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- rhoi gweithdrefnau desg glir ar waith a chlirio eitemau diangen
- gosod sgriniau rhwng gweithfannau'r staff
- clirio eitemau diangen fel teganau a chadeiriau o'r ardal aros
- arddangos arwyddion cadw pellter cymdeithasol
- gosod system intercom wrth y brif fynedfa
- gosod lloriau clinigol yn lle'r carpedi
- gosod llenni untro ym mhob ystafell glinigol
- gosod systemau awyru
- gosod gorsafoedd cyfarpar diogelu personol pwrpasol
- creu pecynnau cyfarpar diogelu personol parod ar gyfer ymweliadau â chartrefi

-
- gosod caban symudol ar gyfer cleifion risg uchel

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19. Caiff galwadau ffôn eu hateb gan staff y dderbynfa a'u brysbennu gan feddyg teulu. Mae unrhyw gleifion y mae angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn dod i'r practis am apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw. Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion ymhellach wrth iddynt gyrraedd y practis, dywedwyd wrthym fod system minicom wedi'i gosod wrth y brif fynedfa er mwyn i'r staff a'r cleifion gyfathrebu â'i gilydd heb fod angen i gleifion fynd i mewn i'r adeilad yn gorfforol. Roedd y practis hefyd wedi trefnu i gaban symudol gael ei osod yn y maes parcio er mwyn i gleifion risg uchel gael ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.

Mae'r practis wedi annog cleifion i ddefnyddio system Fy Iechyd Ar-lein¹ i drefnu eu presgripsiynau rheolaidd. Gall cleifion hefyd ddefnyddio eConsult² fel ffordd o gael cyngor a gwybodaeth. Dywedwyd wrthym hefyd fod llinell ffôn uniongyrchol wedi cael ei darparu i arweinydd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor, rhag ofn y byddai argyfwng yn ymwneud ag iechyd a/neu lesiant myfyrwyr.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn dau gartref gofal a bod ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog a bod tri meddyg teulu, dwy nyrs practis ac un cynorthwydd gofal iechyd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn gweithio yn y practis, a all gyfathrebu'n ddwyieithog â'u cleifion. Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn ceisio darparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iawn a/neu fformat a bod llinell iaith ar gael iddynt ei defnyddio pe bai angen.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael asesiad risg COVID-19 er mwyn asesu'r risgiau personol iddo wrth barhau i gyflawni ei rôl yn ystod y pandemig a nodi unrhyw addasiadau yr oedd angen eu gwneud i'w arferion gweithio.

Siaradodd y meddyg teulu sy'n bartner a rheolwr y practis yn gadarnhaol iawn am y staff o ran y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis a'r cleifion, a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

¹ Prosiect cenedlaethol yw Fy Iechyd Ar-lein, a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i wella gofal cleifion. Mae'n galluogi cleifion i ymgymryd â thasgau iechyd penodol yn ddiogel drwy'r rhyngwyd.

² Mae eConsult yn galluogi meddygon teulu yn y GIG i gynnig ymgynghoriadau ar-lein i'w cleifion. Mae hyn yn galluogi cleifion i gyflwyno eu symptomau neu eu ceisiadau i'w meddyg teulu eu hunain yn electronig ac mae'n cynnig gwybodaeth am opsiynau hunangymorth gan y GIG, cyfeiriadau at wasanaethau, a gwiriwr symptomau, bob awr o'r dydd.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- polisi atal a rheoli heintiau
- data hyfforddiant ar gyfer staff clinigol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau
- polisi glanhau
- rotas glanhau
- amserlenni glanhau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Cadarnhawyd bod y staff wedi cael diweddariadau rheolaidd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a chanllawiau eraill drwy gyfarfodydd practis a grŵp negeseua WhatsApp. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar weithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, a bod y cynorthwydd gofal iechyd yn monitro ac yn trefnu cyflenwadau digonol bob wythnos.

Gwelsom fod polisi glanhau ar waith ynghyd ag amserlenni glanhau manwl. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad oedd unrhyw restrau gwirio glanhau yn cael eu cadw i ddangos bod yr amgylchedd wedi'i lanhau. Cadarnhaodd y meddyg teulu sy'n bartner a rheolwr y practis eu bod yn monitro safonau glendid yn rheolaidd ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir ar unwaith gyda'r cwmni glanhau. Gwnaethom gynghori rheolwr y practis y dylid sicrhau bod y staff glanhau yn cadw rhestrau gwirio. Cytunodd rheolwr y practis i gysylltu â'r cwmni glanhau a chawsom dystiolaeth, yn union ar ôl ein gwiriad ansawdd, i ddangos bod hyn wedi'i wneud a bod rhestr wirio bellach yn cael ei chwblhau a'i chadw yng nghwprdd y glanhawyr.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y dogfennau allweddol a welsom roedd:

- cyfarfodydd tîm y practis
- cynllun parhad busnes.

Roedd rheolwr y practis yn glir ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd fod cryn waith cynllunio a gwella wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil effaith COVID-19.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes, a adolygwyd yn ddiweddar. Mae'r cynllun yn sicrhau gwasanaeth parhaus a gofal diogel i gleifion yn ystod pandemig.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, siaradodd y meddyg teulu sy'n bartner a rheolwr y practis yn gadarnhaol iawn am staff y practis o ran y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis a'r cleifion, a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd Clwstwr³ rheolaidd wedi parhau yn ystod y pandemig. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn rhithwir dros Microsoft Teams ac mae pob un o'r meddygon teulu a rheolwr y practis yn rhan ohonynt.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn wynebu unrhyw broblemau o ran cael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau, a bod systemau rhyngweithio a rhannu gwybodaeth da ar waith, yn enwedig mewn perthynas â gofal lliniarol a diwedd oes. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd wedi cynyddu, a bod hyn wedi rhoi llawer mwy o bwysau ar y practis.

³ Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith Ardal.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd ac yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, bydd cynllun gwella yn nodi manylion yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y crynodeb o'r gwiriad ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun Gwella Ar Unwaith

Lleoliad: Meddygfa Bodnant

Ward/Adran/Gwasanaeth Practis Cyffredinol

Dyddiad y gweithgarwch: 17 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon/Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod y gwiriad ansawdd. | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Meddygfa Bodnant

Ward/Adran/Gwasanaeth Practis Cyffredinol

Dyddiad y gweithgarwch: 17 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--------------------|--------------------------------------|---------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod y gwiriad ansawdd hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: